# tafod elái

MEHEFIN 2015

Rhif 298

Pris 80c


## Enillwyr Eisteddfod yr Urdd Caerffili

Charlotte Kwok, Unawd Piano Bl 6 ac iau

Alys a Celyn, Deuawd Bl 6 ac iau

Ensemble Lleisiol Bl 6 ac iau Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant.

## Adran Bro Taf yn Dathlu 10 Mlynedd

Cân Actol (Adran/Y.C.) Bl 6 ac iau Adran Bro Taf

Osian Gruffydd. Dawns Werin i Fechgyn dan 25 oed

Daniel Calan Jones. Dawns Werin Unigol i Fechgyn Bl 9 ac iau



Cyflwyniad Digri 14-25 oed Ysgol Gyfun Garth Olwg

Rhagor o ganlyniadau tudalen 6 a 10

Chwarter awr o Adloniant 14-25 oed

Roedd Adran Bro Taf mewn dros 15 cystadleuaeth ar y llwyfan!

Ella Jones-Iles. Dawns Werin Unigol i Ferched Bl 9 ac iau

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

**01443 407570**
**www.menteriaith.cymru**

## DIGWYDDIADAU'R FENTER

**FESTIVOL 6/6/15**
Edrychwch allan am stondin y Fenter ar faes Parc Ynysangharad, Pontypridd yn nigwyddiad Interlink.
Dewch i glywed mwy am gyfleoedd gwirfoddoli'r Fenter.

**GWYL FEITHRIN – Mudiad Meithrin 16/6/15**
Os ydych chi'n bwriadu mynd i ŵyl Feithrin yr ardal yn Sain Ffagan. Dewch i ymweld a ni.

**NOSON GOMEDI 19/6/15**
Noson o Gomedi Cymraeg yng Nghlwb Y Bont Pontypridd, i godi arian at daith theatr Ieuenctid Mimosa i Batagonia. Bydd criw o bobl ifanc o ledled Cymru yn mynd draw i Patagonia i berfformio sioe am y daith gwnaeth mewnfudwyr o Gymru yno 150 mlynedd yn ôl.

Dewch i chwerthin hefo ni! £8 am tocyn cyn y noson £10 ar y drws. Cysylltwch a bethanjones@mentercaerffili.org i archebu.

**Pizzas i Part Ponty 23/6/15**
Noson codi arian i Parti Ponty ym mwyty La Trattoria ym Mhontypridd. Dewch i fwynhau gyda ni a chefnogi'r digwyddiad Cymraeg lleol arbennig yma. Ffoniwch swyddfa'r Fenter i archebu tocynnau.
Tocyn oedolyn £12 (Pizza a diod meddal)
Tocyn plentyn (O dan 12 oed) £6 (Pizza a diod meddal). Ffoniwch swyddfa'r Fenter i archebu tocynnau: 01443 407570
www.menteriaith.org

**PICNIC Y TEDIS 26/6/15**
'Dyn ni'n edrych 'mlaen eto i bicnic tedis y cyngor. Thema'r digwyddiad eleni yw Picnic yn y Parc. Dewch i weld ni yn y babell Cymraeg. Tybed pa weithgareddau arbennig bydd wedi eu paratoi ar eich cyfer eleni.

**PARTI PONTY 11/7/15**
Mae Parti Ponty nôl! Dewch i Barc Ynysangharad Pontypridd ddydd Sadwrn Gorffennaf 11eg
10 – 5pm am ddiwrnod arbennig. Rhywbeth i bawb o bob oed.

Adloniant i blant, teuluoedd, pobl ifanc ac oedolion. Stondinau, crefftau, bwyd, chwaraeon yr Urdd, Cerddoriaeth byw a llawer mwy!

Croeso mawr i bawb. Mynediad am ddim.

## GWASANAETHAU'R FENTER

**Gwasanaethau Plant**
Mae'r Fenter yn rhedeg 7 Clwb carco a 3 Cynllun Chwarae yn ystod y gwyliau ledled y Sir. Bob mis byddwn yn cynnwys gwybodaeth a lluniau un o'r darpariaethau hynny.

Yng Nghlwb Carco Aberdar mae staff y clwb Marie Weaver, Samantha Howells a Lewis Jones yn cynnal nifer o sesiynau amrywiol yn cynnwys garddio, noson ffilm, chwaraeon, celf / crefft a choginio o Ddydd Llun – Dydd Gwener, yn ystod tymor yr ysgol.

Am 4 wythnos yn ystod yr Haf eleni bydd cyfle hefyd i blant lleol fynychu Cynllun Chwarae yn yr ysgol yn rhad ac am ddim.

Am ragor o wybodaeth am glybiau carco a chynlluniau chwarae Menter Iaith RCT ar www.menteriaith.org neu ffonio Michael Goode ar 01443 407570.

**Fforymau Ieuenctid**
Mae'r Fenter yn rhedeg 6 Fforwm ledled y Sir, yn yr Ysgolion Cyfun Cymraeg, coleg y Cymoedd ac Ysgol Gyfun Treorci. Bob wythnos byddwn yn cynnig cip i chi ar un o'r fforymau, gydag erthygl fer wedi ei pharatoi ganddyn nhw.
Tîm Treorci!

Trefnodd Fforwm Treorci drip bowlio i Nantgarw yn ystod gwyliau Pasg. Aeth 10 disgybl gyda Catrin a Rhys o'r Fenter, roedd pawb wedi joio mas draw! Edrych ymlaen at y trip nesaf!
Dyddiadau pwysig i gofio
Trip i Oakwood - Coleg y Cymoedd a Ysgol Gyfun Garth Olwg – 23.5.2015
Trip i Mountain Ranch Caerffili - Ysgol Gyfun Llanhari ac Ysgol Gyfun Rhydywaun – 26.5.2015
Trip 'Go Karting' Bae Caerdydd - Ysgol Gyfun y Cymer 5.6.2015

**Gwirfoddolwyr ar gyfer Parti Ponty**
Ym Mharc Ynysangharad, Pontypridd ar Ddydd Sadwrn 11eg o Orffennaf. Cyfle gwych i fod yn rhan o ddiwrnod arbennig. Swyddogaethau gwahanol ar gyfer pawb o bob gallu ac o bob oed. Croeso mawr i bawb! Cysylltwch â'r Fenter am fwy o fanylion ac i gofrestru 01443 407570 Menter Iaith Rhondda Cynon Taf, Llawr 1af, 9A Stryd Fawr, Pontypridd. CF44 7ES

**Gair gan Einir Siôn, Y Prif Weithredwraig**
Mae'r Fenter yn brysur trwy'r flwyddyn yn datblygu a darparu gwasanaethau a gweithgareddau Cymraeg yn y Sir, ond mae'n deg dweud bod y cyfnod yma gyda'r prysuraf a welwyd ers amser wrth i ni baratoi ar gyfer atgyfodiad Parti Ponty, ymgynghori â chymunedau a sicrhau darpariaethau cyfrwng Cymraeg mewn cyfnod o gynni ariannol. Rydw i am ddefnyddio'r adran hon i nodi ambell ddatblygiad gan y Fenter sy'n ychwanegu at ddarpariaeth ieithyddol y Sir.

Marie Weaver a phlant y Clwb Carco yn plannu hadau.

Y Fforwm Ieuenctid yn Bowlio Deg

Rydym wedi dilyn esiampl ambell Sir arall trwy greu llyfryn yn amlinellu budd dwy-ieithrwydd ac addysg Gymraeg. Rydym wedi llwyddo i wneud hyn gyda chefnogaeth y Cyngor, a chyllid o Gronfa Glyndŵr. Bydd y llyfryn yn cael ei ddosbarthu'n eang o ddiwedd Mehefin.

Mae'n berthnasol i mi hefyd sôn am lwyddiant ein fforymau ieuenctid; datblygiad newydd i'r Fenter ers mis Medi y llynedd. Pwrpas y fforymau yw trafod datblygiad yr Iaith ac i hyfforddi a chynorthwyo'r bobl ifanc i greu digwyddiadau a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg perthnasol iddyn nhw. Mae pob Fforwm wedi ymateb a mynd i'r afael â'r sialens yn arbennig o dda. Ry'n ni'n clywed wfftio aml am ddefnydd y Gymraeg rhwng pobl ifanc ac mae ystadegau yn sail i lawer o hyn, ond mae'n rhaid i mi ddweud, wedi chydig o amser, ymroddiad, trip preswyl i Langrannog ac arweiniad swyddog arbennig o dda, mae'n fforymau yn cyfathrebu gyda'i gilydd yn Gymraeg bob amser, o fewn eu fforymau eu hunain, digwyddiadau a gyda fforymau eraill wyneb yn wyneb ac ar y cyfryngau cymdeithasol, ac yn cyd-drefnu ambell ddigwyddiad. Wna'i ddim wfftio ieuenctid, what's App nag Instagram eto!

## Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg

Llongyfarchiadau i bawb o YGG Garth Olwg sydd wedi cystadlu yng nghystadlaethau yr Eisteddfod yng Nghaerffili eleni!

Llongyfarchiadau enfawr i Callum Nicholls (Blwyddyn 6) sydd wedi cael ei ddewis i chwarae criced dros Gymru.

Plant Blwyddyn 3 ar drip i ymweld a Cosmeston Lakes

Diolch yn fawr Doctor Price am ddod i ateb cwestiynau plant Meithrin a Derbyn am eich swydd pwysig!

Daeth hen ffrind i ymweld â ni yn yr ysgol. Diolch Mr Urdd!

# GILFACH GOCH

*Gohebydd Lleol:*
Betsi Griffiths

**Ganwyd Seren**
Ar brynhawn Sul Ebrill 26 cynhaliwyd sioe arbennig gan Academi LMT yn y ganolfan hamdden gymunedol. Prynhawn llawn canu, dawnsio ac actio gan fechgyn a merched yr Academi rhwng oedran 3-18. Fe oedd dros 50 o blant yn cymryd rhan. Yn ogystal â sioe fe oedd cystadleuaeth ynghlwm â'r perfformiad gyda 28 o gystadleuwyr – LMT ACADEMY'S GOT TALENT.

Roedd dau gystadleuaeth – un a feirniadwyd gan bobol proffesiynol, a'r llall gan y gynulleidfa ac yn wir i chi ein merch lleol Esmay Rese Walters, 5 mlwydd oed enillodd galon y gynulleidfa gyda'i pherfformiad unigol perffaith o The Sun Will Come Out Tomorrow o'r sioe Annie ac fe oedd Esmay yn deilwng o'r drydydd wobr dewisiad y gynulleidfa. Gwelir llun ohoni yn derbyn y wobr gan ei mentor sef Louisa Martin Thomas. Llongyfarchiadau mawr i bawb a gymerodd rhan ac i Louisa a'i gŵr Marvin am y cyfle mae nhw'n rhoi i'r aelodau i ddatblygu eu talentau.

**Y Clwb Rygbi**
Llongyfarchiadau i'r Ieuenctid yn cyrraedd rownd derfynol cwpan y Merit Table yn dilyn fuddugoliaeth dros Ystrad Rhondda yn y rownd gyn derfynol. Chwaraewyd y gêm derfynol nôs Fercher 13 Mai ym Mhenygraig yn erbyn Pontypridd. Gêm hynod o gyflym a chyffrous gyda Gilfach Goch ar y blaen hanner amser. Ond erbyn y chwiban olaf Pontypridd oedd yn fuddugol. Fe fydd noson gwobrwyo'r clwb nôs Sadwrn 30 Mai gyda Nigel Owens yn siaradwr gwadd.

## Dathlu Blwyddyn Arall

Merched y Wawr Tonysguboriau yn y Trattoria

**Yn Gant Oed**
Llongyfarchiadau i Mrs Lorraine Bryant Swn yr Afon a ddathlodd ei phenblwydd yn 100 oed ar Mai 5ed. Cynhaliodd ei meibion John, David a Philip barti arbennig iddi yn y Parc Treftadaeth, a daeth perthnasau a ffrindiau yno o Brydain a rhai bob cam o Awstralia. Dymuniadau gorau iddi am lawer penblwydd eto. Derbyniodd llawer iawn o gardiau gan gynnwys un oddiwrth y frenhines ac un gan Carwyn Jones. Mae Mrs Bryant yn winiadwrwraig medrus iawn ac yn arbenigwraig ar cwiltio Cymreig.

**Gwellhad Buan**
Dymuniadau gorau am wellhad buan i Miss Mair Thomas Wood Street, gynt o Ysgol Gyfun Y Pant, sydd wedi dychwelyd adre o'r Ysbyty ar ôl cael clun newydd.

**Dosbarth Gwnio**
Llongyfarchiadau i ferched y Dosbarth Gwnio a gyflwynodd £600 i Ysbyty Felindre ar ôl bod wrthi yn gweu cywion a'u llenwi ac wy Pasg a'u gwerthu er budd yr Ysbyty. Dros y deg mlynedd diwethaf mae'r dosbarth wedi cyfrannu £11,700 i'r Ysbyty. Da iawn wir ferched.

Gwenno Rees, Efail Isaf
ar raglen Heno

Jane Pearce a fu'n cyflwyno seremoni Medal y Dysgwyr yn Eisteddfod yr Urdd. Dewiswyd Cân Jên yn gân yr Eisteddfod eleni a daeth ag atgofion o gân Edward H a'r ffilm yn y 70au gyda Jên yng Nglanllyn.

Côr yr Einion yng Nghyngerdd Efail Isaf

Ysgol Llantrisant

Ann ac Eirian Rees ym mharti diolch y Tabernacl

Ysgol Evan James

Adran y Bont

# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Cyngerdd**
Cynhaliwyd cyngerdd llwyddiannus iawn yng Nghapel y Tabernacl nos Iau, Ebrill 30ain. Trefnwyd y noson gan Gôr yr Einion a chafwyd eitemau clodwiw gan Ysgolion Cynradd Gymraeg Pont Siôn Norton, Castellau, Evan James, Garth Olwg a Llantrisant ac Ysgolion Cyfun Garth Olwg a Llanhari. Cyflwynwyd y noson gan Nia Williams yn ei ffordd ddeheuig arferol. Trosglwyddwyd elw'r noson o £1020 i gronfa Aaron, bachgen bach o'r pentref sydd yn dioddef o anableddau difrifol. Roedd yn bleser cael croesawu Aaron a'r teulu i'r cyngerdd. Cyflwynwyd £200 hefyd i Gronfa Macmillan. Diolch o galon i'r ddwy Siân am arwain a chyfeilio i Gôr yr Einion; i blant ac athrawon yr ysgolion am roi o'u hamser prin ac yn enwedig i Beti Treharne am ei holl waith yn trefnu'r noson.

**Ymdrech wych Pens**
Chwyddwyd Cronfa Aaron ymhellach o ryw £2000 gan gamp arbennig Emlyn Penny Jones yn seiclo o Gaernarfon i Gaerdydd. Mae teulu Aaron yn wirioneddol ddiolchgar i ti Pens am dy ymdrech wych.

**Marathon Llundain**
Llongyfarchiadau i Samantha Rosie, Heol y Ffynnon ar ei champ yn rhedeg Marathon Llundain. Newydd wella o niwed mae Samantha ac roedd ei hamser o 4 awr 47 munud i'w ganmol. Mae Gethin a Cai, ei meibion, yn falch iawn ohoni.

**Brysiwch wella**
Dymuniadau gorau i John Copley, Heol Iscoed sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ystod y mis. Da clywed ei fod yn gwella. Cafodd Barbara Griffiths, Heol y Ffynnon ddamwain fach yn ddiweddar ac mae am ganmol ei chymdogion, Marilyn ac Arthur am eu gofal a'u consyrn amdani.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Vera Gammon, Heol Iscoed a ddathlodd ei phen-blwydd yn 90 oed ar Fai 8fed. Trefnwyd te parti hyfryd iddi yng Nghanolfan y Tabernacl ar y prynhawn Sadwrn i ddathlu'r achlysur, ac fe ganodd Carys Jones ganeuon i'w chyfarch.

Fe fydd John James, a oedd yn byw yn Heol y Ffynnon tan yn ddiweddar, yn dathlu ei ben-blwydd yn gant oed ar Fehefin 25ain. Llongyfarchiadau gwresog i chi eich dau.

**Cerddor o fri**
Llongyfarchiadau i Eleri, merch Alun a Bethan Roberts, Nantcelyn ar ei llwyddiant yn derbyn 140 o farciau allan o 150 yn ei arholiad ffidil, Gradd 8. Mae Mam-gu a Thad-cu Radur yn falch iawn ohonot.

**Cymraes i drin eich dannedd**
Diolch o galon i Doctor Mitha am ei gwaith diflino yn trin dannedd yn y feddygfa yn Crown Hill yn ystod y deng mlynedd ar hugain diwethaf. Dymunwn iddi ymddeoliad hapus. Y newyddion da i ni'r Cymry Cymraeg yw bod deintydd Cymraeg ei hiaith wedi dod i lenwi'r bwlch. Croeso i'r cylch i Doctor Louise Davies sy'n hanu o Bontyberem.

**Cymorth Cristnogol**
Roedd wythnos Mai 11 - 17 yn wythnos benodol i gefnogi Cymorth Cristnogol. Daeth bataliwn o gasglwyr, yn cario eu bagiau coch llachar i'r pentref i gasglu o ddrws i ddrws. Cyfrannwyd tua mil a hanner o bunnoedd i'r gronfa. Diolch i John Llewelyn Thomas am drefnu'r gwaith ac am gynnal yr Oedfa yn y Tabernacl fore Sul. Un arall a fu'n ddiwyd iawn yn ystod yr wythnos oedd Gwenno Rees, Penywaun a fu'n ymddangos ar y teledu ar raglen "Heno" ac ar raglen Siân Cothi. Yn ogystal â darlledu bu'n cynnal amryw o gyfarfodydd mewn capeli yn y cylch. Bu Gwenno yn Ethiopia ar ran Cymorth Cristnogol yn ddiweddar ac roedd yn medru rhannu ei phrofiadau â ni.

**Te prynhawn yn y Tabernacl**
Ym mis Tachwedd eleni fe fydd Linda Graves a rhyw hanner cant o bobl eraill yn cerdded am chwe diwrnod yn anialdir Patagonia o godi arian at Uned Gancr Ysbyty Felindre. Bydd y daith yn dipyn o sialens ac mae pob un o'r cerddwyr wedi addo codi £6000 yr un i gefnogi'r gwaith gwych sy'n cael ei wneud dros gleifion Felindre. Daeth pedair o ffrindiau Linda at ei gilydd i'w helpu godi'r arian drwy baratoi te prynhawn yng Nghanolfan y Tabernacl brynhawn Sadwrn, Ebrill 25ain. Bu Carys Davies, Ray Phillips, Rhiannon Llywelyn, Olwen Jones a Linda ei hun yn brysur yn paratoi gwledd o de i'w ffrindiau. Cafwyd cefnogaeth amryw o siopau a busnesau lleol a gyfrannodd wobrau hael iawn i'r raffl.

Treuliwyd orig hyfryd yng nghwmni ffrindiau a'r bwyd a'r gwasanaeth yn ddi-fai ac mi godwyd £780 i helpu Linda ar ei thaith.

**Parti pen-blwydd hynod**
Diolch i Beti, Eifiona a Meira am wahodd eu ffrindiau i ddathlu eu pen-blwyddi arbennig yng Nghlwb Golff y Creigiau, dydd Sadwrn, Mai 16eg. Cawsom de prynhawn blasus iawn a chyfle i gymdeithasu gyda ffrindiau. Diolch o galon i chi eich tair.

**Croesawu'r Dysgwyr**
Mi wnaeth Cymdeithas Gymraeg Llantrisant a Chôr yr Einion ar y cyd groesawu Dysgwyr y cylch i'r Ganolfan nos Iau, Mai 14eg. Gwnaeth y côr ganu cân neu ddwy i ddechrau'r noson ac yna cawsom gyfle i sgwrsio gyda'r dysgwyr mewn grwpiau bach o dan arweiniad Helen Prosser. Cyn ffarwelio darparwyd paned a chyfle ychwanegol i sgwrsio.

**Y Tabernacl**
**Bedydd**
Fore Sul, Ebrill 26ain bedyddiwyd Math Elis, mab Sara Esyllt a Marc Rogowski a brawd bach Twm Ifan. Roedd y gwasanaeth bedydd o dan ofal medrus Jane Eryl Jones. Roedd yn braf cael croesawu aelodau o deulu a ffrindiau Sara a Marc i'r Oedfa.

**Triniaeth Ysbyty**
Mae dwy o aelodau'r Tabernacl wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty'n ddiweddar. Cafodd Elenid Jones driniaeth i'w llygad a Beryl Rowley driniaeth i'w chlun. Dymunwn wellhad buan a llwyr i'r ddwy.

**Cydymdemlo**
Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Liz Rees a'r teulu yn Dyffryn Bach Terrace ar golli tad Liz yn ystod mis Mai.

**"Pwy yw Pwy"**
Cyhoeddwyd taflen yn ddiweddar i aelodau'r Tabernacl i'w hysbysu "pwy yw pwy" o fewn yr eglwys. Mae rhestr dyletswyddau'r gwahanol aelodau yn un hirfaith ac mae'n syndod faint o bobl sydd yn cyfrannu mewn gwahanol feysydd.

**Anrhegu Eirian ac Ann**
Ar ddiwedd y gwasanaeth fore Sul y degfed o Fai gwahoddwyd y gynulleidfa i Neuadd y Pentref i ddigwyddiad syml i ddiolch i Eirian ac Ann am eu gwasanaeth diflino i'r Tabernacl ar hyd y blynyddoedd. Cyflwynodd Wyn Jones, cadeirydd bwrdd y Cyfarwyddwyr bowlen wydr tlws yn anrheg i'r ddau ac fe gafodd pawb ddarn o deisen a gynlluniwyd yn bwrpasol i'r dathliad. Diolch Eirian ac Ann am eich holl waith i symbylu'r aelodau i greu eglwys fywiog gref.

**Merched y Tabernacl**
Yr Amgueddfa Wlân, Drefach Felindre oedd cyrchfan nifer dda o aelodau merched y Tabernacl, fore Mercher, Ebrill 29ain. Ar ôl cyrraedd a chael paned o goffi cawsom ein cyfarch gan Non a'i geiriau agoriadol oedd "O'n ni'n gwybod eich bod yn dod, roedd fy mrawd wedi fy rhybuddio!" Ie, Non, chwaer Gwion Evans, un o'n cyd-aelodau yn y Tabernacl oedd ein tywysydd am y bore. Roedd Non yn feistr ar drafod y peiriannau a chawsom glywed a gweld sut roedd y gwlân amrwd o gefn y ddafad yn cael ei drin hyd at ei fod yn cyrraedd y farchnad ar ffurf carthen. Cawsom gyfle i weld yr amrywiol batrymau a garthenni a chael ein hatgoffa sut roedd y "siôl fagu" yn cael ei ddefnyddio. Ar ôl prynu nwyddau o'r siop aethon ni ymlaen wedi i Gastell Newydd Emlyn i gael cinio.

## Merched y Wawr Cangen y Garth

Noson yng nghwmni **Gill Griffiths** ydoedd **'Llaw ar y llyw'** - sef ein cyfarfod mis Mai ni o'r Gangen. Orig hynod ddifyr lle bu Gill yn adrodd ychydig o hanes ei dwy flynedd fel Llywydd Cenedlaethol y Mudiad. Ond cyn manylu ar ddwy flynedd hynod brysur a diddorol taflodd gipolwg dros gychwyn y Mudiad bron i 50 o flynyddoedd yn ôl yn y Parc, ger y Bala, ynghyd â'r rhesymau dros gychwyn Mudiad hollol Gymreig ei natur. Roedd tri phen megis i Lywyddiaeth Gill - sef materion sy'n agos iawn at eich chalon - 'dysgwyr, drama a daioni' - ac fe weithiodd Gill yn ddi-flino a di-ildio dros yr agweddau hyn. Trwy 'Apêl y bagiau' fe godwyd y swm anhygoel o £24,000 tuag at waith Cymorth Cristnogol yn Ethiopia ac fe ddaeth cyfle i ymweld â'r wlad yng nghwmni rhai o weithwyr Cymorth Crisnogol er mwyn cael bod yn llygad-dyst i waith yr elusen yno. Profiad bythgofiadwy! Roedd cael bod â'i llaw ar y llyw am ddwy flynedd yn brofiad cyfoethog iawn a thra'n diolch i Gill am ei gwasanaeth i'r Mudiad braf gweld aelod o'n Cangen fach ni yn dal yr arswydus swydd am ddwy flynedd. Fel y gŵyr unrhywun un sy'n nabod Gill er i'r tymor swyddogol ddod i ben mae hi'n dal i weithio'n ddyfal yn dawel bach dros y Mudiad. Cyfarfod nesa - Mehefin 10fed am 6 yn yng Nghrochendy Nantgarw.

Cofiwch am yr 'Ategolion at y galon' - sef thema eleni - gemwaith, sgarffiau, mwclis a phetheuach tebyg! Dewch â nhw ar y noson - gellir trefnu eu trosglwyddo i'r mannau priodol!

## Efail Isaf

**O dudalen 5**

Diwrnod pleserus iawn a diolch i Ros am drefnu'r daith.

I Ann Rees mae'r diolch am drefnu'r daith i Ffynnon Taf ar Fai 13eg. Ar ôl cael ein tywys drwy'r hanes ym Mhafiliwn y parc cawsom fynd i lawr i weld y ffynnon. Ffynnon gynnes yw hon, y sba lleiaf yn y byd, efallai â'r gwaith carreg o'i hamgylch wedi ei adnewyddu'n ddiweddar gan y Cyngor. Mae'n debyg fod y dŵr cynnes yma'n gwella pobl sy'n dioddef o wynegon a'r gowt. Fe anfarwolodd un o'n haelodau ei hun drwy adael i'w ffôn ddisgyn i'r ffynnon! Ymlaen â ni wedyn i'r tŷ bwyta yng Ngerddi Pugh gerllaw Radur, i gael byrbryd, paned a chyfle i brynu ambell blanhigyn.

Ein cyfarfod nesaf fydd ymweliad â Thŷ Dyffryn a'r Gerddi, fore Iau, Mehefin 11eg. Byddwn yn cyfarfod yno am baned am 10.30 y bore.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Mehefin
Mehefin 7fed Aelodau Pentyrch – Oedfa Gymun
Mehefin 14eg Y Parchedig Aled Edwards
Mehefin 21ain Oedfa Deuluol Sul y Tadau
Mehefin 28ain Aelodau Tonteg / Pentre'r Eglwys

## Eisteddfod yr Urdd Caerffili 2015 Canlyniadau Llwyfan

Llefaru Unigol Bl 2 ac iau (D): 2il Lola Jones. Ysgol Gynradd Gwauncelyn.
Unawd Piano Bl 6 ac iau: 1af Charlotte Kwok. Ysgol Gynradd Dolau
Ensemble Lleisiol (Y.C./Adran) Bl 6 ac iau 1af Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant.
Dawns Stepio Bl 6 ac iau: 2il Adran Bro Taf
Unawd Chwythbrennau Bl 6 ac iau: 3ydd Elen Griffiths, Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg
Unawd Bl 5 a 6: 2il Alys Thomas.Ysgol Gynradd Gymraeg Gymunedol Llantrisant
Grwp Llefaru Bl 6 ac iau (D): 1af Ysgol Gynradd Creigiau
Deuawd Bl 6 ac iau: 1af Alys a Celyn. Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant
Grwp Llefaru Bl 6 ac iau: 2il Ysgol Gynradd Creigiau
Parti Unsain (Y.C.) Bl 6 ac iau (Ysg. dros 50) 1af: Ysgol Gynradd Gymraeg Gymunedol Llantrisant
Llefaru Unigol Bl 5 a 6 (D) 3ydd Kira Divine. Ysgol Gynradd Creigiau
Cân Actol (Adran/Y.C.) Bl 6 ac iau (Ysg. hyd 100) 1af Adran Bro Taf
Parti Cerdd Dant (Unsain) (Adran) Bl 6 ac iau. 2il Adran Bro Taf
Dawns Werin Bl 6 ac iau (Ysgolion hyd 100/Adran hyd 50) 2il Adran Bro Taf
Parti (Adran) Bl 6 ac iau: 3ydd Adran Bro Taf
Ymgom Bl 7-9 3ydd Ysgol Gyfun Garth Olwg
Parti Cerdd Dant (Adran) Bl 9 ac iau: 2il Adran Bro Taf
Dawns Werin Unigol i Ferched Bl 9 ac iau: 1af Ella Jones-Iles. Adran Bro Taf
Dawns Werin Unigol i Fechgyn Bl 9 ac iau: 1af Daniel Calan Jones, Ysgol Gyfun Plasmawr
2il Iestyn Gwyn Jones. Adran Bro Taf
Dawns Werin Bl 7-9. 2il Adran Bro Taf
Cyflwyniad Dramatig Bl 7-9: 3ydd Ysgol Gyfun Garth Olwg
Cyflwyniad Dramatig Bl 10 a dan 19 oed: 3ydd Adran Bro Taf
Dawns Cyfansoddiad Creadigol Bl 7 a dan 19 oed: 2il Ysgol Gyfun Garth Olwg
Dawns Stepio i 2, 3 neu 4 Bl 7 a dan 25 oed: 3ydd Adran Bro Taf
Dawns Werin Unigol i Fechgyn Bl 10 a dan 25 oed: 1af Osian Gruffydd, Adran Bro Taf
Dawns Werin (Aelwyd) dan 25 oed: 2il Adran Bro Taf
Chwarter awr o Adloniant 14-25 oed: 1af Adran Bro Taf
Cyflwyniad Digri 14-25 oed: 1af Ysgol Gyfun Garth Olwg
Dawns Stepio Bl 7 a dan 25 oed: 1af Adran Bro Taf

## TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577/prosserh@btinternet.com

**Pen-blwydd Hapus, Beryl**

Ar Fehefin 7fed, bydd Beryl Davies yn dathlu ei phen-blwydd yn wyth deg oed. Mae Beryl yn un o drigolion mwyaf prysur Tonyrefail. Gan fod ganddi gymaint o ddiddordeb mewn hanes, mae galw cyson arni i fynd i gymdeithasau ac ysgolion lleol i roi sgwrs. Gwn o brofiad personol hefyd am ei charedigrwydd. Mae'n ymweld yn gyson â chyfeillion a chydnabod sy'n gaeth i'r tŷ neu mewn cartref neu ysbyty. Gobeithio cewch chi ddiwrnod bant ar eich pen-blwydd Beryl! Pen-blwydd Hapus!

## Gwirfoddoli yn Tafwyl

**Mae Tafwyl angen gwirfoddolwyr!**

Rydym yn edrych i recriwtio unigolion cyfeillgar a brwdfrydig dros 18 oed i wirfoddoli yn Tafwyl eleni. Mae'r ŵyl yng Nghastell Caerdydd ar y 4ydd a 5ed o Orffennaf.

Mae dau opsiwn shifft: 10.30yb - 16.00yp neu 15.30yp - 21.00yh.

Fel diolch cewch daleb £10 i wario yn un o'n stondinau bwyd, crys-t Tafwyl, byrbrydau bach a diodydd meddal.

I gofrestru i wirfoddoli llenwch y ffurflen gais yma:
http://bit.ly/gwirfoddoli-2015

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am wirfoddoli cysylltwch â:
rhodri@mentercaerdydd.org
Diolch!

# PENTYRCH

*Gohebydd Lleol:*
*Marian Wynne*

**Taith Gerded Clwb y Dwrlyn**
Dinbych y Pysgod oedd cyrchfan taith gerdded flynyddol Clwb y Dwrlyn eleni. Fe enwyd y criw o 36 yn "Clwb y Dwrlyn Ramblers " gan westy'r Parc ac fe roddodd hynny yr esgus perffaith i Rhodri Gwyn Jones lunio limrig doniol yn yr iaith fain i nodi'r achlysur.

One evening in Tenby- the- Fish
We made this incredible wish
We dreamt we were Ramblers
Right social climbers
Real boorish but totally British.

Hwn oedd enillydd y gystadleuaeth limrig a gynhaliwyd ar ôl swper nos Wener. Ond yn ôl y beirniad Huw Llywelyn Davies 'roedd un arall ar y brig hefyd, sef limrig Peter Griffiths yn cyfeirio at y mathemategydd Robert Recorde a anwyd yn Ninbych y Pysgod yn 1510. Recorde oedd dyfeisydd yr arwydd hafal " = " ac mae cofeb iddo yn Eglwys y dre'. 'Roedd yn ddyn egwyddorol a gonest ond cafodd ei garcharu am amau gonestrwydd Iarll Penfro. Fe'i taflwyd i garchar lle bu farw.

Un noson yn Ninbych y Pysgod
Rhwng Recorde a'r Iarll bu anghydfod
Er cyfiawn ei lais
Fe'i cosbwyd drwy drais
Nid "hafal" oedd pawb yn y cyfnod.

Ar y Sadwrn mewn tywydd ffafriol dechreuwyd ar y daith gerdded o Amroth nes cyrraedd Saundersfoot a chael picnic ar y traeth yno. Yna wrth i rai ddiffygio, aeth y gweddill dewr ymlaen am Ddinbych y Pysgod a hynny mewn da bryd i weld hanner olaf y gêm rygbi allweddol rhwng y Scarlets a Treviso. Wedi cinio nos Sadwrn diddanodd ein Dave Allen ni (Cerith Davies) y criw gyda'i straeon ac mae'n siwr bod sŵn y chwerthin yn diasbedain lawr yn y dre'.

Bu'n benwythnos lwyddiannus iawn a phawb wedi mwynhau y cerdded a'r cwmnia. Diolch i Wyn a Gill Rees am eu gwaith yn trefnu mor ofalus a thrylwyr.

Bydd Eirlys Eckley, y cadeirydd, yn trosglwyddo'r awennau i ddwylo Eifion Glyn ar ddiwedd yr Haf. Diolchwyd i Eirlys am ei harweinyddiaeth dros y ddwy flynedd a chroesawyd Eifion gan wybod y bydd y flwyddyn nesa' eto yn un ddiddorol a hapus. Peidiwch ag anghofio am y ddau gyfarfod sydd ar ôl cyn hynny sef taith i Ystradfellte gydag Alun Wyn Bevan ddydd Sadwrn, Mehefin 13 a "Noson o Hwyl" i'r teulu cyfan nos Wener, Gorffennaf 10 am 6.30 yr hwyr yng Nghlwb Rygbi Pentyrch.

(Os oes gennych ddiddordeb ym mywyd a gwaith Robert Recorde, mae Gareth Roberts, Pentyrch gynt, a Fenny Smith wedi golygu llyfr amdano dan y teitl, "Robert Recorde. The Life and Times of a Tudor Mathematician." Gwasg Prifysgol Cymru.)

**Clwb Rygbi Pentyrch**
Daeth y tymor i ben ar nodyn llwyddiannus i'r tîm cyntaf , rygbi disglair a buddugoliaeth o 26 - 0 dros Wattstown - arwydd o'r hyn allai fod petai'r tîm cryfa' wedi bod ar gael drwy'r gaeaf . Ond yn anffodus - cafwyd anafiadau di-ri, yn anodd i garfan gymharol fach ddygymod â nhw , ac felly gorffennwyd y tymor dri safle o waelod y tabl a lawr yn Adran 3 fydd y tîm yn chware y tymor nesaf . Ar lefelau eraill cafwyd digon i'w ddathlu . Dau chwaraewr ddaeth drwy'r rhengoedd - Seb Davies a Rory Bartle yn ennill capiau dros dîm dan 20 Cymru ; y tîm ieuenctid yn cyrraedd rownd derfynol Cwpan Adran y Dwyrain , a'r " M& J" - y mini a'r ifanc yn dal i ffynnu - bron 250 o chwarewyr dan 15 oed wedi cofresru - gyda'r nifer fwyaf yng Nghymru - ac anrhydeddau niferus i dimoedd ac unigolion . Ac ar yr ochor gymdeithasol , cawsom gwmni rhai o fawrion y gêm yn y clwb - Dennis Gethin - Llywydd Undeb Rygbi Cymru , Gareth Davies Cadeirydd y Bwrdd a dau sy'n berchen ar fedal Enillwyr Cwpan y Byd - David Campese - y dewin o Awstralia a Josh Lewsey, Lloeger er bod ei fam yn Gymraes Gymraeg o Gwmllynfell. Ddim yn ddrwg felly i glwb mewn pentre bach fel Pentyrch. (Huw Ll Davies.)

**Bywyd Prysur Sara Pickard**
Ar fore Iau Mai 7fed roedd y rhan fwyaf ohonom siwr o fod yn meddwl am yr etholiad cyffredinol, ond materion eraill oedd ar feddwl Sara Pickard. Y bore hwnnw roedd Sara yn rhan o grŵp o bobol ifainc â Syndrom Down yn ymddangos ar sioe deledu Victoria Derbyshire i drafod yr anawsterau roedd nifer ohonynt yn wynebu wrth geisio sicrhau gwaith cyflogedig. Mae Sara wrth gwrs yn ffodus iawn i fod â swydd gyflogedig gyda Mencap Cymru ond gwahanol iawn oedd profiadau rhai o'r lleill. Da o beth oedd bod grŵp fel hwn yn cael y cyfle i ledaenu neges bwysig i gwmniau a chyflogwyr ac fe wnaeth Sara hynny yn effeithiol iawn. Nid rhyfedd felly bod ymateb hynod ar y rhwydweithiau cymdeithasol ac ymhlith y trydarwyr!

Nid dyna ddiwedd ar brysurdeb mis Mai i Sara. Aeth i Rufain i siarad mewn cynhadledd wedi ei drefnu gan "Inclusion International" am ei gwaith fel cynghorydd cymuned. Wedyn derbyniodd wahoddiad i fod yn siaradwraig wadd yng nghinio ymddeol y cyn aelod seneddol Hywel Francis. Llongyfarchiadau gwresog iddi unwaith eto!

## Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

Lluniau Tudalen 16

**Chwaraeon**
Llongyfarchiadau i'r tîmau pêl-droed a rygbi ar gyrraedd cystadlaethau chwaraeon cenedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth yn ddiweddar. Fe chwaraeodd y tîm pêl-droed bedair gêm gan ennill tair a cholli un, ac fe chwaraeodd y tîm rygbi dair gêm gan ennill dwy a cholli un. Da iawn hefyd i'r plant fu'n rasio traws-gwlad sef Max a Georgia Bradley, Siôn Gwynne, Jac Lockett, Morfudd Jones a Mali Thomas.

**Sioe "No Man's Land"**
Ar yr ugeinfed o Fai fe ddaeth Kieron Jones a'i sioe un dyn i berfformio o flaen disgyblion Blynyddoedd 5 a 6. O fewn awr, llwyddodd i gyfleu bywyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a hynny mewn sioe fywiog a rhyngweithiol. Roedd pawb wedi mwynhau ac wedi dysgu llawer am fywyd yn y ffosydd, yn y neuaddau dawns ac ar y cae rygbi!

**Ymweliad y nyrs**
Ar y 14eg o Fai, fe ymwelodd y nyrs ysgol â disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 er mwyn trafod beth sy'n digwydd i'n cyrff wrth i ni dyfu i fyny.

**Eisteddfod yr Urdd**
Pob lwc i bawb sy'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Caerffili dros wyliau'r hanner tymor. Yn cystadlu ar ran yr ysgol bydd y Côr, y Parti Deulais, y Parti Unsain, yr Ensemble Lleisiol, Celyn Harry ac Alys Thomas ar y Ddeuawd, Alys ar yr Unawd dan 12 oed a'r Unawd Alaw Werin, Lia Nadimi yn y gystadleuaeth Llefaru dan 12 oed, Lois James ar yr Unawd ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 3 a 4 a Medi Adams ar yr Unawd i ddisgyblion Blwyddyn 2 ac Iau. Cynhaliwyd cyngerdd fel rhagflas i rieni'r disgyblion yn Neuadd yr Ysgol ar 25 Mai.

**Y Côr**
Bu côr yr ysgol yn perfformio mewn cyngerdd yng nghapel y Tabernacl, Efail Isaf yn ddiweddar er mwyn codi arian tuag at elusen Macmillan.

**Ras Hwyaid**
Ar ddydd Sul yr 17eg o Fai, cynhaliwyd Ras Hwyaid a BBQ dan ofal y Gymdeithas Rieni. Mae'n ddigwyddiad blynyddol llwyddiannus iawn a llwyddwyd i werthu 700 o hwyaid. Daeth criw da ynghyd yn dilyn y ras, i fwynhau barbaciw yng Ngwinllan Llanerch.

**Diogelwch yn y cartref**
Daeth Katie o'r Gwasanaeth Tân i siarad gyda disgyblion Blynyddoedd 2 a 5 yn ddiweddar, er mwyn codi'u hymwybyddiaeth o beryglon tân yn eu cartrefi. Fe gafwyd llawer o gynghorion ar sut i ymddwyn mewn achos o dân ac roedd disgyblion Blwyddyn 5 wrth eu boddau'n cael dysgu am yr amrywiaeth o offer sy'n cael ei gadw ar yr injan dân.

# CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams

Priodas Catrin Middleton, Creigiau, a James Manisty - dydd Sadwrn, 11eg o Ebrill yn y Tabernacl, Efail Isaf.

Bellach mae'r ddau wedi ymgartrefu yn Chiswick ac yn hapus iawn yn y ddinas fawr! Dr. Catrin yn gweithio gyda Cancer Research UK yn delio yn uniongyrchol gyda phobol sy wedi eu heffeithio gan gancr yn ei gwaith ymchwil, ac mae James yn is-gynhyrchydd gyda chwmni teledu yn Hammersmith yn gweithio ar raglenni byd natur i deledu Sky. Pob hapusrwydd a phob llwyddiant eich dau!

**Swyddi Newydd! Llongyfarchiadau ferched!**
Yn dilyn ail strwythuro o fewn y Mudiad Meithrin bu raid i staff ledled Cymru ail ymgeisio am eu swyddi. Yn anffodus, collodd rhai eu swyddi a dewisodd eraill fynd o'u gwirfodd.
Braf cael llongyfarch Teleri Jones ar sicrhau swydd fel swyddog cefnogi a gweinyddiaeth yn ardal Caerffili, Casnewydd a Thorfaen. Nia Parker hithau, o'r Groesfaen ar ei phenodi yn swyddog cefnogi a hyfforddiant ardal Taf, Merthyr a Chaerdydd ac Ann Angell gafodd ei phenodi yn ddirprwy gyfarwyddwr y De ddwyrain gyda chyfrifoldeb dros reoli. Byddant yn gweithio fel tîm o 7 o staff yn y de-ddwyrain sydd yn cynnwys ardal Castell Nedd a Phort Talbot a draw at Sir Fynwy.

Mae ail strwythuro yn digwydd yn y brif swyddfa yn Aberystwyth dros y misoedd nesaf hefyd.

**Gŵyl Feithrin**
Mae ardal y De-ddwyrain yn cynnal Gwyl Feithrin yn Sain Ffagan eleni rhwng Mehefin 15-17. Y thema yw'r 'Tywydd a'r Tymhorau' a'r Brodyr Gregory fydd yn diddanu. Bydd Sali Mali a Dewin yn galw draw yn ogystal. Bydd tair sioe bob dydd a chyfle i blant y Cylchoedd Meithrin, y Ti a Fi a'r rhieni i fwynhau.

# Bethlehem, Gwaelod-y-garth

**Trefn yr Oedfaon** (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol) **:**

Mis Mehefin 2015:
7fed Oedfa dan ofal y Parchedig Peter Dewi Richards
14eg Oedfa dan ofal y Parchedig. Robin Samuel
21ain Oedfa i ddathlu Sul y Tadau
28ain Oedfa dan ofal Huw a June Lloyd
Mis Gorffennaf 2015:
5ed Rhys ab Owen
12fed I'w Drefnu
19eg Sul y Cyfundeb
26ain Oedfa ar y cyd a'r Tabernacl, Efail Isaf (ym Methlehem)

Yn ystod mis Mai buom ar daith i'r Unol Daleithiau, gan ymweld â Georgia a De Carolina. Fel rhan o'r daith cawsom ein tywys i gapel yn Savannah, dafliad carreg o'r gwesty, yr honid iddo fod y capel (eglwys) Bedyddwyr Affricanaidd cyntaf yn yr Unol Daleithiau, yn deillio yn ôl i 1773. Mae'n gapel bywiog o hyd, ond mae creiriau a hanesion yn rhan bwysig o'r lle yn ogystal.

Caethweision a'i hadeiladodd, yn wir caethweision a gynhyrchodd pob bricsen, a hynnny wedi iddynt lafurio drwy'r dydd yn y planhigfeydd reis, cotwm a the.

George Leile, caethwas, oedd yr Americanwr Affricanaidd cyntaf i gael ei drwyddedu i bregethu gan y Bedyddwyr yn Georgia, a hynny i gaethweision eraill ar y planhigfeydd ar lan yr afon Savannah.

Un o'r rhai a gafodd eu cyffwrdd gan Leile oedd Andrew Bryan, a daeth yntau yn bregethwr ac yn arweinydd ar ei braidd, ac yna yn weinidog cyntaf y capel.

Erbyn 1800 'roedd gan y capel 700 o aelodau, ac yna erbyn 1830 i fwy na 2400. Bu Jones,Thomas a Williams yn gyfenwau ar weinidogion y capel ar ddechrau'r 20fed ganrif.

Yn ystod y Rhyfel Cartref yn yr Unol Daleithiau, 'roedd y capel yn gyrchfan dianc i gaethweision a hynny o dan lawr y lle fel rhan o'r rheilffordd danddaearol a arweiniai at lan yr afon a rhyddid.

Fel rhan o weithgareddau Mudiad Hawliau Sifil cynhelid cyfarfodydd wythnosol yn y capel yn ystod y '50 a '60au'r ganrif ddiwethaf. Cawsom ein hysgwyd gan hanesion cynnar a diweddar am gaethweisiaeth a hynt y croenddu yn y wlad, a fedrai rhywun ddim osgoi gofyn y cwestiwn iddo fo'i hun tybed faint sydd wedi newid mewn gwirionedd erbyn heddiw?

Gullah yw'r iaith a siaredir gan y gymuned African American yn nhaleithiau'r De, iaith wedi ei seilio ar Saesneg, ond â dylanwad ieithoedd Gorllewin a Chanolbarth Affrica yn drwm arni. Amcangyfrifir fod 'na rhyw 250 000 o bobl yn ei siarad heddiw.

Iaith wedi ei haddasu, yn ôl y sôn, er galluogi'r caethweision o wahanol wledydd i gyfathrebu a'u gilydd, rhywbeth yr oedd y perchnogion yn gwgu ato ac wedi ceisio ei wahardd rhag iddynt gynllwynio i ddianc.

Fel ni'r Cymry mae'r traddodiad llafar wedi bod yn hynod o bwysig iddynt, yn eu galluogi i drosglwyddo eu treftadaeth o un genhedlaeth i'r llall, eto rhywbeth y dymunai'r dyn gwyn ei wahardd. Ystyrid yr iaith fel un yr anwybodus a'r isel mewn cymdeithas, ond bellach ystyrir hi gyda balchder.

Mae "Kumbayah" (tyrd yma yn yr iaith Gullah) yn gyfarwydd i ni i gyd ac yn Caneuon Ffydd (rhif 50)!

Yn 2005, cwblhawyd, wedi ymlafnio am dros 25 mlynedd, gyfieithiad o'r Testament Newydd i'r iaith Gullah - "De Nyew Testament".

Prynais gopi, a dwi'n siwr y byddwch i gyd yn gallu dyfalu'r canlynol yn Gymraeg:-

*"Now den, dey shree ting dat gwine las. People gwine bleebe. Dey gwine look fowaad wid hope, an dey gwine lob. Bot lob de ting dat great de mos".*

Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m.

Cofiwch hefyd am wefan Bethlehem sydd i'w chanfod ar www.gwe-bethlehem.org Hefyd mae gan Bethlehem gyfri trydar (twitter) @gwebethlehem.

# TONTEG

Gohebydd Lleol:
Gillian Williams

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i bobl Tonteg a Phentre'r Eglwys fu'n gweithio mor galed yn ystod y mis dwetha' i godi arian:
I Carys Davies a'i thim yn cynnal y te parti sydyn yn Efail Isaf. Ac i Pens am ei gamp aruthrol yn seiclo o'r gogledd i'r de.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau hefyd i Nigel Upward a Sara Williams ar enedigaeth eu mab bach cyntaf, Guto Tomos a anwyd ar Ebrill yr wythfed. Y ddau o Donteg ond erbyn hyn yn Byw yn Sblot yng Nghaerdydd. Dymuniadau gorau iddynt.

# LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Golygydd y mis – Elain Haf

**Brawd a chwaer yn 9Bach!**
Llongyfarchiadau i Daniel ac Esyllt Swain am eu llwyddiant diweddar gyda'r band gwerin 9Bach. Cynhaliwyd seremoni Gwobrau Gwerin Radio 2 yng Nghanolfan y Mileniwm ym mis Ebrill ac enillodd 9Bach y wobr am yr albwm gorau gyda'u halbwm newydd Tincian. Clod yn wir o ystyried mai nhw yw'r band cyntaf Cymraeg i dderbyn y wobr hon ers cychwyn y gwobrwyo 15 mlynedd yn ôl.

Mae Dan yn chwarae'r gitar fas i 9Bach ac ar hyn o bryd yn byw yng Nghaerdydd. Mae e hefyd yn chwarae i'r Alice Russell Band ac yn teithio dros y byd gyda nhw. Y delyn yw offeryn Esyllt, chwaer Dan. Mae hi'n byw ym Mhenarth, yn therapydd lleferydd ac yn fam i dri o blant.

**Caffi a becws**
Mae caffi unigryw The Polkadot Teapot wedi agor ei ddrysau yn ddiweddar yn Llantrisant. Mae'r lleoliad yn un diddorol, sef yr hen lyfrgell, sydd wrth gefn y Model House. Mae'r ystafelloedd te yn cynnig cyfle i ymwelwyr a thrigolion Llantrisant fwynhau paned a danteithion amrywiol ac ymlacio yn y stiwdio gelf fodern a stiwdio ddylunio. Caiff y cacennau eu pobi gan "artist cacennau" sy'n medru pobi cacennau ar gyfer achlysuron arbennig o bob math. Bwriedir cynnal dosbarthiadau i ddysgu'r grefft a bydd cyfle i wneud gwaith ffeltio mewn dosbarth yn y caffi.

**Amgueddfa Newydd yn Neuadd y Gorfforaeth, Llantrisant**
Mae prosiect newydd cyffrous i drawsnewid hen Neuadd y Gorfforaeth yn Llantrisant yn ganolfan ymwelwyr newydd fydd yn cynnwys yr offer diweddaraf wedi i ryddfreinwyr y dref godi'r swm sylweddol o £1.1 miliwn. Ar ôl chwe blynedd o waith diflino gan Ymddiriedolaeth Tref Llantrisant sicrhawyd arian i ddechrau ar y gwaith o greu'r ganolfan newydd. Bydd Llantrisant yn sicr o elwa, a'r ganolfan yn debyg o ddenu llawer o ymwelwyr i'r dref.

Mae'r adeilad wedi ei leoli ar ochrau'r lawnt o flaen Castell Llantrisant ac fe'i godwyd yn 1773 ar seiliau Canol Oesol sy'n dyddio'n ôl i'r 14eg ganrif. Dros y blynyddoedd bu'n neuadd farchnad, yn lleoliad i gelloedd, llys barn a hyd yn oed yn ysgol. Ar ôl iddo gael ei gwblhau bydd yr adeilad yn gartref i henebion lleol, dogfennau a lluniau a fydd yn dathlu hanes hen dre Llantrisant ac arddangosfeydd rhyngweithiol ar gyfer pob oedran. Yn ogystal, bwriedir neilltuo gofod arbennig ar gyfer astudiaethau achyddol. Ynghyd â'r arddangosfa barhaol, bwriedir cynnal amrywiol weithdai a digwyddiadau fydd yn denu llawer mwy o ymwelwyr i'r ardal ac a fydd hefyd, wrth gwrs, yn cynnig adnodd newydd ardderchog i'r gymuned leol.

**Gwobr Aur ac Arian**
Cafodd Lena Evans o Donysguboriau lwyddiant mewn cystadleuaeth karate Tang Soo Do yn ddiweddar. Enillodd wobrau aur ac arian yng nghystadleuaeth rhyngwladol y gamp a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd ar y 26ain o Ebrill. Roedd dros fil o blant o amryw o wledydd, o Ewrop ac America, yn cystadlu ar y diwrnod. Enillodd Lena wobr aur yn y gystadleuaeth *ffurfiau* a gwobr arian am baffio. Llongyfarchiadau i ti, Lena!

**Colli Mam**
Bu farw Susannah (Ciss) Davies ar 27ain Ebrill yn 95 mlwydd oed. Mam Eluned Davies-Scott, Meisgyn oedd Ciss ac yn fam-yng-ngyfraith i Dennis ac yn nain i Sioned. Roedd yn frodor o'r Foel, Sir Drefaldwyn ac wedi byw yn Commins Coch ac yna yn Llanrhaeadr Ym-Mochnant lle bu'n rhedeg siop a busnes amaethyddol gyda'i gŵr. Wedi i'w gŵr farw aeth i fyw yn y Trallwm ac yno y bu am dros 40 o flynyddoedd. Cynhaliwyd gwasanaeth i ddathlu ei bywyd yng nghapel Cymraeg y Trallwm dan arweiniad Glyn Williams gyda theyrngedau gan Emyr Davies, Llangadfan a Trefor Owen, Y Trallwm.

Llongyfarchiadau i Sioned ar gael ei phenodi i dîm pencadlys Rolls-Royce yn Goodwood. Cychwynnodd ei gyrfa gyda Unilever yn Brackley ar ôl graddio o Brookes, Rhydychen yn 2012. Bydd hi'n gweithio fel Cynlluniwr Strwythur y Safle ar gyfer model newydd sy'n cael ei gynhyrchu gan y cwmni.

**Eisteddfod yr Urdd Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elai**
Mae pwyllgor apêl ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2017, wedi ei sefydlu yn ardal Llantrisant, Meisgyn a Phontyclun. Y bwriad yw trefnu nifer o ddigwyddiadau hwyliog dros y ddwy flynedd nesaf, gan ddechrau dros yr haf gyda chyngerdd ysgolion a chinio mewn bwyty lleol. Mwy o fanylion mis nesaf! Os hoffech helpu mas, cysylltwch â Dafydd ar 07766047009.

**Taith Mike a Mair Edwards i Gallipoli**
Aeth Mike a finnau i Gallipoli ar ddechrau mis Mai ar achlysur canmlwyddiant ymgyrch Gallipoli. Fel nifer o bobl oedd ar ein gwibdaith, aethom ar bererindod i Gallipoli er mwyn ymweld â beddau ein perthnasau a fu farw yn y Rhyfel Mawr yno. William Pritchard oedd y pumed o chwe phlentyn William a Mary Pritchard (Brynmawr, Sir Frycheiniog ). Roedd e'n frawd iau i Jonah ac yn frawd i fy mamgu. Roedd y ddau frawd yn lowyr cyn i'r Rhyfel Mawr ddechrau pan ymunon nhw â Chyffinwyr De Cymru. Bu Jonah farw ym mis Mawrth 1916 yng Ngogledd Ffrainc). Aeth William i Ffrainc yn gyntaf ym mis Medi 1914 ond wedi'i anafu daeth e adref am gyfnod byr. Wedi gwella, roedd yn rhaid iddo ddychwelyd i'w gatrawd. Ar y diwrnod hwnnw, cerddodd e a'i nai bach, William Jonah, i'r orsaf reilffordd yn y dref, siwrnai o hanner milltir.

Lawer o flynyddoedd wedyn, nid anghofiodd ei nai erioed weld ei ewythr yn beichio crio bob cam o'r siwrnai i'r tren ac yntau yn dweud dro ar ôl tro na fyddai 'n gweld bro ei febyd byth eto. Pa mor wir oedd ei eiriau. Roedd e wedi gweld erchylltra rhyfel unwaith o'r blaen yn Ffrainc a nawr roedd yn wynebu ymgyrch druenus yn Gallipoli lle cafodd miloedd eu lladd o fewn y naw mis roedd y fyddin Brydeinig yno. Ar ôl cyrraedd S Beach yn Gallipoli ar ddiwrnod cyntaf yr ymgyrch, Ebrill 25ain 1915, y diwrnod a enwir bellach yn Anzac Day, cafodd ei ladd ar yr 11eg o Fehefin. Fe'i claddwyd yn un o'r mynwentydd mwyaf yn Gallipoli, Twelve Tree Copse. Roedd yn brofiad bythgofiadawy. Trychineb fawr i'n milwyr ni ac i fyddinoedd y Cyngrheiriaid oedd Gallipoli. Ond serch hynny, addewid Ataturk oedd ystyried pob milwr a laddwyd yn y frwydr fel rhan o deulu mawr y wlad newydd, Twrci. Mewn heddwch mae ein milwyr yn gorwedd mewn gwlad sydd yn parchu bob un ohonyn nhw.

**Merched Y Wawr**
Daeth criw dda o gangen Tonysguboriau at ei gilydd i gael cinio yn y Trattoria yn ddiweddar. Roeddem yn dathlu blwyddyn arall lwyddiannus. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r rhai sydd wedi bod yn ein difyrru ac yn ystod ein cyfarfodydd eleni 'rydym wedi dysgu paratoi basgedi crog, gwneud croesbwythau a sut i edrych ar ôl ein calonnau. Buom yn dathlu'r Nadolig ac yn canu carolau gyda Chôr Yr Einion. Euthum ar daith ddychmygol ar y Titanic ag i Batagonia a chael gwybod am waith a rhai cyfrinachau meistres y gwisgoedd i'r cyfryngau. Byddwn yn cyfarfod mis nesaf i drefnu rhaglen 2015-16 ac yn edrych ymlaen at gael cwmni aelodau newydd i ymuno â ni ym Mis Medi.

Golygyddion mis nesaf – Nia Donnelly a Dilwen Davies

# tafod elái

***GOLYGYDD***
***Penri Williams***
***029 20890040***

***HYSBYSEBION***
***David Knight 029 20891353***

***CYHOEDDUSRWYDD***
***Colin Williams***
***029 20890979***

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Mehefin
i gyrraedd erbyn
19 Mehefin 2015

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.net

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafelai.net**

***Argraffwyr:***
**Gwasg Morgannwg**
**Castell Nedd SA10 7DR**
**Ffôn: 01792 815152**

***Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***


**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

**Andrew Reeves**

**Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**

**MERCHED Y WAWR**
**Cangen y Garth**

**Ymweliad â Chrochendy Nantgarw**
yng nghwmni Gwen Griffiths

nos Fercher, Mehefin 10fed
am 6 yr hwyr

Swper i ddilyn - 7.30 - yn y Caesars, Creigiau.
Angen enwau ogydd.
Pawb i ddewis ei fwyd ar y noson!

Manylion: 029 20890770

**MERCHED Y WAWR**
**Cangen Tonysguboriau**

**Paratoi am flwyddyn nesaf**

**Mehefin 17eg**

Rhagor o fanylion:
01443 202093 / 01443 203729

**CLWB Y DWRLYN**

**Taith Bws a Cherdded**
gydag Alun Wyn Bevan
Dydd Sawrn, Mehefin 13eg.

**Noson o Hwyl a Bwffe**
6.30yh Nos Wener
Gorffennaf 10
yng Nghlwb Rygbi Pentyrch
Tocynnau £6 / £3 plant

Manylion: 029 20890040

**Bore Coffi i'r dysgwyr**
**yng Nghaffi Leekes, Tonysguboriau, bob dydd Gwener am 11 y bore.**
**Croeso cynnes i chi ymuno â'r criw.**

## Eisteddfod yr Urdd Caerffili 2015 Canlyniadau Gwaith Cartref

Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl.12 ac 13
1af Elis Widgery Ysgol Gyfun Garth Olwg
Barddoniaeth Bl. 12 a 13
1af Gwynfor Dafydd Ysgol Llanhari

## Celf, Dylunio a Thechnoleg

Gwaith Lluniadu 2D Bl. 2 ac iau
3ydd Lucas Williams Ysgol Gynradd Maesybryn
Gwaith Creadigol 3D Bl. 3 a 4 (Unigol)
2il Osian Johnson Ysgol Gynradd Castellau
Gwaith Creadigol 3D Bl. 3 a 4 (Gwaith Grŵp) 3ydd Casi a Nel Ysgol Gynradd Creigiau
Serameg / Crochenwaith Bl. 7, 8 a 9
1af Isabell Price. Ysgol Gyfun Garth Olwg
Gwaith Creadigol 3D Bl. 6 ac iau
3ydd Sofia Earles. Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg
Gwaith Creadigiol 2D Tecstilau Bl. 3 a 4
1af Ffion Biggs Ysgol Gynradd Castellau
Print Monocrom Bl. 5 a 6
2il Dafydd Powell. Ysgol G. G. Llantrisant

acapela STUDIO www.acapela.co.uk

7 Mehefin, 8.00pm: Rackhouse Pilfer – bluegrass o'r Iwerddon (Tocynnau: £5/ £7.50/£10)
12 Mehefin, 8.00pm: Acapela Unsigned (Tocynnau: £5/£7) Olivia a The Saint. Eleri Angharad. Kinky Wizzards. Kieran Marsh
19 Mehefin, 8.00pm: Heather Jones a The Gentle Good - Gareth Bonello (Tocynnau: £7.50/£10)
20 Mehefin, 8.00pm: Rusty Shackle a Remembering August (Tocynnau: £7.50/ £10/£12)
24 Mehefin - Paratoi am Glastonbury - Phantom of the Opera (1925) gyda cerddoriaeth fyw (Tocynnau: £5/£7.50/ £10)
26 Mehefin, 8.00p: Afro Cluster (Tocynnau: £6/£8)
27 Mehefin, 8.00pm: Classical Café (Tocynnau: £7.50£10/£15)

EISTEDDFOD YR URDD
PEN-Y-BONT AR OGWR
TAF AC ELÁI 2017

## Codi Arian – Marathon yn wir!

Gyda dwy flynedd yn union i fynd, mae'r gwaith caled o godi'r £300,000 (a mwy!) wedi dechrau!

Mae nwyddau di-ri ar werth: Crysau T o £6, hwdis o £15, poteli dŵr, beiros a llawer mwy. Cadwch lygad allan am y rhain mewn ffeiri, cyfarfodydd ac ysgolion dros yr Hâf fel y gwelwyd gyda stondin lliwgar yng nghyngerdd Sêr y sir nos Wener yr 16eg o Fai.

Yn ogystal â phwyllgorau, mae yna hefyd unigolion arbennig yn mynd y filltir ychwanegol i godi arian a chodi ymwybyddiaeth o'n heisteddfod. Dyma atgofion Huw Marshall a rhedodd Marathon Llundain eleni:

Ddydd Sul y 26ain o Ebrill o'n i'n ddigon ffodus i fod ymysg y degau o filoedd gan gynnwys Paula Radcliffe yn dechrau marathon Llundain. Ac fel Paula nes i lwyddo i gwblhau'r ras, a dim ond rhyw bedwar awr ar ei hôl hi!

Nid dyma fy marathon cyntaf. Yn 2009 nes i lusgo fy nghorff o amgylch strydoedd Efrog Newydd. Ond wedi rhedeg y ras nes rhoi'r trainers yn y to a phenderfynu byth mynd trwy'r fath artaith eto, rhaid cyfaddef fod pum mlynedd yn amser hir ac mae atgofion drwg yn pylu! Felly llynedd, wedi potel neu ddau o win, nes i roi fy enw yn yr het ar gyfer marathon Llundain.

Nes i dderbyn y fraint llynedd o gael fy mhenodi fel cadeirydd pwyllgor gwaith Celf a Chrefft Eisteddfod Pen-y-bont, Taf ac Elai 2017, felly dewis naturiol oedd codi arian ar gyfer y digwyddiad arbennig hwn.

Dwi wedi bod nôl yn rhedeg ers naw mis bellach ag yn mwynhau, er bod rhedeg dros ddwy awr ar y tro heb os yn her gorfforol a seicolegol. Yn anffodus oherwydd dau bwl o "man flu" gwnaeth fy amserlen hyfforddi fynd ar chwâl a nes i ddim llwyddo i gwblhau digon o rediadau hir.

Nes i ddeffro ar fore'r ras mewn hwyliau da a chymerais fy lle ar y llinell gychwyn yn wirioneddol edrych ymlaen at y profiad. Nath y coesau bara yn weddol tan filltir 19 pan nath y diffyg rhediadau hir fy nharo. Rhaid cyfaddef roedd y boen yng nghyhyrau fy nghoesau am y 7 milltir olaf yn annioddefol, ond roeddwn yn benderfynol o orffen y ras yn enwedig o ystyried bod pobol wedi fy noddi er mwyn codi arian tuag ag yr Eisteddfod.

Chwe awr yn ddiweddarach nes i groesi'r llinell derfyn a derbyn fy medal, a dyw'r gwen ar fy ngwyneb ddim yn cyfleu pa mor hapus o'n i fy mod i wedi llwyddo rhedeg dros chwe milltir ar hugain.

Mae dal modd noddi Huw drwy ei dudalen Just Giving: http://justgiving.com/huw-marshall.
Pwy sydd am wneud y sialens nesaf i godi arian felly?

*Am rhagor o fanylion cysylltwch â Jordan Morgan Hughes – Jordan@urdd.org 02920 635685 neu Elin Mannion, Rôl Marchnata, Pwyllgor Gwaith – elinmannion@gmail.com.

## CROESAIR COL



**Ar Draws**

1. Gwasgarog (4)
3. Gwaredu (7)
8. Tir isel (7)
9. Hurtyn (5)
10. Heol fach (5)
11. Cig carw (6)
13. Esbonio (6)
15. De Lloegr (6)
18. Clodfori heb eisiau (6)
20. Cerrig wedi eu chwalu (5)
23. Palis (5)
24. Darostyngiad (7)
25. Gwialen bysgota (7)
26. Gwag (4)

**I Lawr**

1. Poeth iawn (8)
2. Erwau (5)
3. Deri (3)
4. Math o goeden (5)
5. Carn euraid (7)
6. Cytûn (4)
7. Heliwr adar (6)
11. Mi (2)
12. Wedi ei orffen (8)
14. Oedi (7)
16. Hebraeg (6)
17. Anifail (2)
19. Cwrdd (5)
21. Diffygio (5)
22. Cerdd Hir (4)
24. Aderyn benyw (3)

**Atebion i: Croesair Col**
**34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn, Pontyclun. CF72 8QX erbyn 16 Mehefin 2015**

## Atebion Mai

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | C | | E | | FF | | C | | Y | | C | |
| P | L | A | G | I | O | | Y | S | M | A | L | A |
| | A | | R | | L | | D | | A | | I | |
| A | F | U | | RH | O | D | F | A | | A | R | F |
| | D | | A | | G | | Y | | H | | I | |
| D | Y | R | N | U | | A | N | I | A | N | O | L |
| | | | N | | B | | D | | F | | | |
| C | I | P | O | L | W | G | | C | A | R | C | O |
| | TH | | G | | N | | LL | | L | | A | |
| O | F | N | | O | D | L | Y | D | | 24 | R | |
| | A | | G | | E | | G | | C | | L | |
| C | E | N | E | D | L | | A | N | Y | N | A | D |
| | N | | M | | I | | D | | D | | M | |

# Ysgol Gynradd Evan James

Lluniau Tudalen 13

**Clwb Ffitrwydd**
Mae ein clwb ffitrwydd yn mynd o nerth i nerth. Erbyn hyn, cynhelir y clwb dair gwaith yr wythnos ac mae'n braf gweld llu o blant a rhieni'n cymryd rhan. Rhaid codi'n gynnar iawn bob bore dydd Mawrth er mwyn mynychu'r clwb am 8 o'r gloch! Ddydd Sul, Mai 10fed aeth 17 o blant a'u teuluoedd a sawl athro hefyd i redeg yn y "Parkrun" yng Nghaerdydd ac fe wnaeth pob un ohonynt yn wych. Daliwch ati bawb!

Mae'r holl ymarfer yn amlwg yn talu ffordd gan fod nifer o'r disgyblion wedi cael cyfle i gystadlu yn nhraws gwlad, pêl-droed a phêl-rwyd yr Urdd. Da iawn chi.

**Cyngerdd Cronfa Aaron**
Cawsom noson fendigedig yng nghwmni ysgolion yr ardal mewn cyngerdd yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf er mwyn codi arian i Gronfa Aaron. Fe ganodd côr yr ysgol gân am y Groggs. Ysgrifennwyd y geiriau i'r gân hon gan un o'n hathrawon, Miss Jones. I goroni'r noson, fe ddawnsiodd Amelia Hughes y Jive a'r Cha Cha Cha gyda'i phartner, Rhys. Mae'r ddau yn bencampwyr dawnsio Prydain. Diolch yn fawr i'r holl rieni ddaeth i gefnogi'r achos da hwn.

**Beiciau i bawb**
Yn dilyn y newyddion am y daeargryn yn Nepal, penderfynodd y Cyngor Ysgol bod angen codi arian i apêl Kathmandu. Daeth pob plentyn â beic neu sgwter i'r ysgol a chafwyd sesiynau ar yr iard lle roedd pawb wrth eu bodd yn yr haul. Mae beicwyr o fri yn Ysgol Evan James!

**Gwobrwyo dau ddosbarth**
Roedd dau ddosbarth hapus iawn yn yr ysgol fore Mercher, Mai 13eg. Gwobrwywyd Dosbarth Elin Fflur o'r Cyfnod Sylfaen a Dosbarth Pwyll a Rhiannon o'r Adran Iau gan mai dyma'r ddau ddosbarth a enillodd y mwyaf o docynnau iaith. Gwobr Dosbarth Elin Fflur oedd bore yn Rumble in the Jungle yng Nghwm Clydach ac aeth Dosbarth Pwyll a Rhiannon i'r ganolfan ddringo Spot yn Nhrefforest. Tybed pa ddosbarth fydd yn ennill nesaf?

**Ymweliad ag Ysgol Llantrisant**
Diolch yn fawr i blant a staff Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant am wahodd ein timau pêl-droed a phêl-rwyd i chwarae yn eu herbyn. Cafwyd prynhawn gwych yno ac rwy'n siwr y gallwn drefnu gemau eraill rhwng y ddwy ysgol yn y dyfodol.

**Eisteddfod Genedlaethol y Urdd.**
Dymuniadau gorau i Kai Easter, (dawns stryd unigol) a hefyd i'r Cyflwyniad Dramatig a fydd yn cynrychioi'r ysgol yn yr Eisteddfod yng Nghaerffili yn ystod hanner tymor.

**Llwyddiannau yn yr ysgol**
Llongyfarchiadau mawr i'r grŵp o Flwyddyn 5 a 6 a oedd yn fuddugol yng Nghwis Llyfrau'r Sir. Pob hwyl i chi yn y rownd derfynol yn Aberystwyth.

**Darlledu rhaglen radio**
Fe gynhyrchodd Blwyddyn 6 raglen radio wych yn seiliedig ar fywyd a gwaith tad-cu Gwenllian Thomas, disgybl yn ein hysgol. Roedd yn darlledu rhaglenni radio yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Yn ôl pob sôn roedd Hitler yn ei gasau! Darlledwyd y rhaglen ar orsaf Radio Cymru FM.

**Sêr y sgrîn fach**
Os ydych yn mwynhau gwylio'r rhaglen Tref a Tryst ar S4C, efallai i chi weld sawl un o blant blwyddyn 2 a 3 ar y rhaglen hon yn ddiweddar. Fe gawsant hwyl pan ddaeth Tref a Tryst i'r ysgol i ffilmio.

**Noson i'w chofio**
Roedd yna gyffro mawr pan aeth nifer o blant yr ysgol i gwrdd â Malorie Blackman, y llenor plant enwog ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Roedd hi'n anrhydedd cael bod yno ac fe ysbrydolwyd sawl un i roi cynnig ar ysgrifennu creadigol.

# Ysgol Dolau

Lluniau Tudalen 13

**Cwis Diogelwch y Ffordd**
Llongyfarchiadau i dîm Diogelwch y Ffordd Dolau am ennill cystadleuaeth Diogelwch y Ffordd Rhondda Cynon Taf. Aelodau'r tîm buddugol oedd Dyfan Krieger, Joshua Bourne, Lauren Palin, Chessie Jarvis a Lilly Greaves. Daeth y tîm yn gyntaf allan o 138 o ysgolion a nawr byddant yn cynrychioli RhCT yn y rownd nesaf, Cymru gyfan. Da iawn a phob lwc yn y rownd derfynol!

**Murlun Y Feithrin**
Mae ardal chwarae'r Feithrin lawer mwy lliwgar ar ôl gwaith caled arlunydd lleol a'i dîm. Cafodd y murlun ei ddylunio ar ôl casglu syniadau ac awgrymiadau'r plant Meithrin, yn seiliedig ar eu hoff rigymau a hwiangerddi.

**Traws-gwlad**
Ddydd Sadwrn, Mai 16eg aeth tîm traws-gwlad yr ysgol i Ysgol Gyfun Brynteg ar gyfer ras olaf ysgolion Pen-y-bont. Yn gyntaf, roedd y ras hwyl lle daeth Paige Richardson a Tianna Teisar yn gyntaf. Yna, roedd y seremoni gwobrwyo gyda Tianna yn ennill cyntaf ar gyfer rhedeg unigol merched blwyddyn 3 a 4 a'r tîm rhedeg bechgyn blwyddyn 5 a 6 yn ennill ail! Llongyfarchiadau i bawb a ddaeth i redeg ac wrth gwrs i'r rhieni am gefnogi'r traws-gwlad.

# Ysgol Pont-Sion-Norton

Lluniau Tudalen 16

**Diogelwch tân**
Daeth criw o ddynion tân Pontypridd i siarad am ddiogelwch tân gyda'r dosbarth Derbyn, Blwyddyn 2 a Blwyddyn 5. Fe wnaeth y plant ddysgu llawer o negeseuon pwysig ac i checio pob larwm yn y tŷ… cyn i'r dynion cael eu galw i ffwrdd ar gyfer tân go-iawn!

**Asiant Teithio**
Diolch i mam Catrin Borkowski am ddod i mewn i siarad am ei swydd fel Asiant Teithio, gyda blynyddoedd 3 a 4. Cafwyd sesiwn holi diddorol iawn, a dysgodd y dosbarth bod rhai gwyliau yn costio £50,000!!

**Ailgylchu**
Bu'r Cyngor Eco yn brysur iawn ar ôl y gwyliau'r Pasg yn casglu a gwasgu bosys wyau Pasg ar gyfer cystadleuaeth ailgylchu y Sir. Diolch i bawb a ddaeth â nhw i'r ysgol. Casglwyd 20 bag ailgylchu yn llawn sbwriel wyau Pasg.

**Ffair Lyfrau**
Codwyd £633.60 i'r ysgol ar ôl ffair lyfrau Scholastic llwyddiannus iawn.

**Cogurdd**
Llongyfarchiadau i Ifan Cotter o flwyddyn 5 am gyrraedd rownd olaf cystadleuaeth coginio'r Urdd. Fe ddaeth i'r brig allan o 32 o gogyddion brwd. Pob lwc iddo yng Nghaerffili.

**Nofio**
Llongyfarchiadau i Carwyn Salmon, blwyddyn 6, ar ennill Grand Prix nofio. Daeth yn 1af yn ei grwp oedran.

**Ail Ryfel Byd**
Cafwyd wythnos ddiddorol iawn cyn hanner tymor yn nosbarthiadau blwyddyn 5 a blwyddyn 6. Bu'r dosbarth yn teithio nol mewn amser ac yn gwisgo fel faciwis er mwyn gallu uniaethu ar gyfer eu tasgau creadigol.

**Cyflwyniadau**
Ar ôl dysgu llawer am adar yn ystod eu tasgau cyfoethog, cafodd blynyddoedd 1 a 2 y cyfle i greu eu cyflwyniadau cyntaf. Roedd yn brofiad cyffrous ac roedd pawb wedi cyflawni'n dda.

**Pel-fasged**
Llongyfarchiadau i Gabriel Lima am gael ei ddewis i chwarae pel-fasged dros Gymru.

**Rygbi**
Llongyfarchiadau i Daniel Bowen am gael ei ddewis i chwarae rygbi dros dîm Ysgolion Pontypridd yng nghystadleuaeth 7 bob ochr Cymru. Pob lwc!

## Ysgol Gynradd Castellau

**Presenoldeb**
Llongyfarchiadau i'r criw mawr yma am fod yn bresennol bob dydd yn ystod tymor y Gwanwyn. Da iawn chi!

**Sioe Hetiau Pasg**
Daeth teuluoedd a ffrindiau lu i weld plant y Feithrin a Derbyn yn perfformio yn ein Sioe Hetiau Pasg. Cafodd y gynulleidfa wledd o ganeuon y tymor a hwiangerddi traddodiadol. Diolch yn fawr i'r rhieni am gyd weithio gyda'r plant i greu'r hetiau hardd.

**Dysgu am y Corff**
Y criw yma o fechgyn Dosbarth Y Castell yn cael hwyl wrth ymchwilo i sut mae'r ysgyfaint yn gweithio yn ystod yr Wythnos Wyddoniaeth.

**Wythnos Aml-Ddiwylliannol**
Y plant yn dangos eu pasbort cyn teithio i bedwar ban byd yn ystod ein Wythnos Aml-Ddiwylliannol.

**Cystadleuaeth pêl-droed yr Urdd**
Cafodd tîm pêl-droed yr ysgol gyfres o gemau agos iawn eleni. Gyda thîm ifanc yn ennill profiad gwerthfawr y tro yma mae pethau'n argoeli'n dda ar gyfer blwyddyn nesaf. Pob lwc i Gwion Tyler a Gethin Rosie Jones yn treial pêl-droed ysgolion cynradd y sir.

## Ysgol Evan James

Gwobr Tocynnau Iaith

Amelia a Rhys yn y gyngerdd yn Efail Isaf

## Ysgol Dolau

Enillwyr Diolgelwch y Ffordd

Murlun y Feithrin

Enillwyr Traws-gwlad

# Ysgol Gyfun Garth Olwg

**Yr Adran Gelf – Llwyddiannau Eisteddfod a gwaith Origami**

Cafwyd nifer lwyddiannau yng nghystadlaethau gwaith cartref celf Eisteddfod yr Urdd eleni. Llongyfarchiadau i Isabell Price 9 Iolo am ennill y gystadleuaeth Serameg blwyddyn 7, 8 a 9; edrychwn ymlaen at weld eu gwaith yn y babell gelf yng Nghaerffili. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Carys Webber 8 Llewelyn am ddod yn ail yn Rhanbarth Morgannwg Ganol am waith creadigol 2D Tecstilau blwyddyn 7, 8 a 9. Hefyd i Seren Fowler 9 Hywel am ddod yn ail yn Rhanbarth Morgannwg Ganol am waith Serameg Blwyddyn 7,8 a 9. A llongyfarchiadau mawr i Jessica Angus Bl.13 am ennill y gystadleuaeth Celf o dan 19 oed yn Rhanbarth Morgannwg Ganol.

Isabell Price (Blwyddyn 9)

Cafodd aelodau o flwyddyn 4 ein hysgolion cynradd wahoddiad i wario'r diwrnod cyfoethogi cwricwlwm yn yr adran gelf i gael hwyl wrth greu. Thema'r dydd oedd Origami, yr hen draddodiad o Siapian. Yn ôl chwedl draddodiadol maen nhw'n dweud os ydych yn llwyddo i greu 1000 o grychyddion yn ystod eich amser fe gewch fyw bywyd hir a hapus. Felly dechreuodd y disgyblion y dasg o greu'r crychyddion!

Adroddiad Mrs Amanda Jones
(Arweinydd yr Adran Gelf)

**Trychineb Daeargryn Nepal – Gweithgareddau Codi Arian**

Llwyddodd yr ysgol i godi dros £750 tuag at yr apêl trwy ddiwrnod o weithgareddau yn yr ysgol. Yn ogystal fe wnaeth dau athro ymdrech arbennig i gefnogi'r achos. Fe wnaeth Mr Rhodri Thomas o'r Adran Gemeg gymryd rhan yn yr "Her Everest" gan dreulio diwrnod cyfan yn ceisio esgyn mynydd Rhigos 27 o weithiau ar ei feic er mwyn dringo pellter yn cyfateb i uchder Mynydd Everest!

Mae gan Miss Angharad Hodgson o'r Adran Saesneg gysylltiadau agos a ffurfiwyd wrth deithio yn Nepal yn ddiweddar. Gweler ei hadroddiad isod:

Haf diwethaf, gwnes i wario mis yn Nepal yn dringo i Orsaf Sylfaenol Everest (Everest Base Camp) gyda thri ffrind. Gwnaethom ddechrau ein taith ym mhrifddinas y wlad, Kathmandu, cyn hedfan i Lukla er mwyn

dechrau'r heic o 8 ddiwrnod i gyrraedd OSE. Gwariom tair noson yn hwb y mynyddoedd Himalaya sef Namche Bazar, gan gwrdd â nifer o bobl leol a wnaeth ein helpu i gyrraedd ein gôl ym mhell lan yn y mynyddoedd. Fel y bydd nifer ohonoch yn gwybod, mae Kathmandu a Namche Bazar wedi cael eu bwrw gan ddaeargrynfeydd ofnadwy yn yr wythnosau diweddar, yn lladd dros 8,500 o bobl a dinistrio bywydau miliynau. Er mwyn ceisio codi arian i helpu'r apêl a thalu am gymorth dyngarol, byddaf yn cymryd rhan ym Marathon Caeredin ar y 31ain o Fai. Bydd yr arian a godwyd yn cael ei ddanfon yn syth i Global Giving i fynd at Apêl Nepal. Mae'r her yma yn hollol wahanol i'r her o ddringo i OSE, ond rwy'n gobeithio bydd yr arian yn helpu'r bobl a wnaeth helpu fi i lwyddo cyflawni breuddwyd gydol oes.

**Timau Pêl-rwyd Merched Blwyddyn 7 yn cystadlu'n frwd yn erbyn Ysgolion Cymraeg**

Dyma dîm pêl-rwyd Blwyddyn 7 ar ôl ennill y fedal arian yn nhwrnamaint Pêl-rwyd Ysgolion Cymraeg y deheubarth 2015. Cyrhaeddodd y tîm y gêm derfynol yn erbyn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, ond yn anffodus collon ar ôl y 3ydd cyfnod o amser ychwanegol - sgôr 2-1!

Tîm : Freya Williams, Naomi Evans, Nia Osborne, Mali Iolo Davies, Darcy Cromwell, Beca Jones, Maisie Oldfield a Tara Keen

Diolch hefyd i'r dyfarnwyr Georgia Jenkins a Gwenno Iolo Davies

**Crefft Ymladd Ysbrydoledig**

Enillodd Elena Edwards wobr Pencampwr y Wlad yn y categori dan 16 yn y 4ydd Ffederasiwn Rhyngwladol 'Kyokushinkai Karate Clicker' yng Ngroeg. Mae Ellie wedi bod yn aelod o Glwb Karate Ynysybwl ers iddi fod yn 7 mlwydd oed. Dros yr 8 mlynedd diwethaf mae Ellie wedi ennill nifer o gystadlaethau yn y wlad yma yn ogystal â thramor; enillodd ei theitl Prydeinig cyntaf yn 8 mlwydd oed. Hi yw'r Pencampwr Prydeinig Belt Brown mewn Kata a Clicker, teitl mae hi wedi dal am y dair blynedd.

Yn 10 mlwydd oed, dewiswyd Ellie i gynrychioli Cymru yn Nhwrnamaint Cwpan Karate Pilatus yn y Swistir a ddychwelodd i'r wlad yn enillydd! Ers hynny, mae'r arfer o lwyddo wedi parhau - hi yw enillydd y Cwpan Pilatus am y pedair blynedd diwethaf y bu hi'n rhan o'r gystadleuaeth.

Yn 2011, dewiswyd Ellie i gynrychioli Prydain yn nhwrnamaint y wlad yn Llundain. Fel rhan o'r Tîm Prydeinig Clicker enillodd hi'r 2il wobr, yn 11 blwydd oed ac yr aelod ifancaf o'r Tîm Prydeinig yn ogystal â'r cystadleuydd ifancaf o fewn ei chategori.

Mae Ellie'n dangos ymroddiad ac ymrwymiad i'w disgyblaeth ac mae hi'n hynod o ddiymhongar am ei chyflawniadau. Mae karate wedi cael effaith bositif ar ei bywyd, hybu ffordd iach o fyw, parch at ei hunan ac eraill, a chynyddu hunanhyder. Mae Ellie hefyd wedi gwneud llawer o ffrindiau trwy karate, nid yn unig ym Mhrydain ond o bob cwr o'r byd, gan gynnwys Iwerddon, Israel a'r Swistir.

Adroddiad Miss Kath Morgan
o'r Adran Addysg Gorfforol

**Eisteddfod yr Urdd**

Llongyfarchiadau mawr i Elis Widgery Blwyddyn 12 a ddaeth yn 1af yng nghystadleuaeth cyfansoddi cerddoriaeth.

**Llongyfarchiadau i'r disgyblion isod ar eu llwyddiant ym myd chwaraeon:**

Llwyddodd Tîm Blwyddyn 7 i ennill drwyddo i'r gêm derfynol ar gyfer Cystadleuaeth Pêl Droed BTP. Da iawn i Thomas Milliner, Iwan Smith, Cole Morgan, Corey Thomas, Thomas Griffiths, Chad Goss, Wil Thomas, Oliver Wilde, Korben Evans, Ethan Vaughan, Lewys Griffiths a Sean Hamilton

Da iawn hefyd i Dîm Pêl-droed Blwyddyn 8 a gyrhaeddodd rownd derfynol yr un gystadleuaeth. Pob dymuniad da i Thomas Stevens, Alex Halliday, Dan John, Josh Karadogan, Ethan Goode, Elis Watts, Adam Stanton ac Ellis Williams ar gyfer y gêm i'w chwarae ar Gaeau Prifysgol De Cymru, Trefforest

Mae Emily Poole Bl.10 wedi cael ei dewis i gynrychioli Tîm Pêl-droed Cymru dan 17 ac yn aelod o'r garfan sydd yn chwarae yn erbyn Ynysoedd y Faroe, Kazakstan a Ffrainc yn Ystrad Mynych.

Mae Freya Williams (Blwyddyn 7) wedi ei dewis ar gyfer carfan Pêl Fasged Cymru dan 16 oed ac yn mynd i gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaethau Ewrop FIBA yn Andorra ym mis Gorffennaf. Hi fydd yr aelod ieuengaf yn y garfan.

Llongyfarchiadau mawr i Rhys Britton yn nghystadleuaethau beicio yn Ynys Manaw mis diwethaf. Llwyddodd Rhys i ddod yn ail yn y cam gyntaf ac yn gyntaf yn drydydd cam o'r ras.

# Ysgol Llanhari

**Sgio yn Leysin Pasg 2015**
Roedd pawb yn gyffrous ar y bws i'r Swistir ac roedd yr awyrgylch yn grêt, pawb yn canu ac yn gwylio ffilmiau da. Wrth inni agosau at y gwesty roedd pawb yn edrych ar y golygfeydd anhygoel o Lyn Genefa a'r Alpau. Teimlai pawb yn flinedig felly roedd rhaid inni ymlacio cyn wynebu y diwrnodau cyffrous oedd o'n blaenau. Roedd y tywydd yn wael yn ystod yr wythnos, gydag eira trwm yn syrthio a niwl ymhob man. Roedd y golygfeydd yn anhygoel; ac yn ogystal â'r sgio fe wnaethon ni lawer o weithgareddau gyda'r nos fel sglefrio iâ, nofio, sinema a disco ar y noson olaf. Roedd y sgio yn wych ac fe lwyddodd grŵp ohonom i sgio lawr y llethrau coch a glas drwy'r dydd a thrio hefyd neidio ar y cwrs slalom. Wrth i ddiwedd yr wythnos agoshau roedd pawb yn drist oherwydd doedd neb eisiau gadael y Swistir.
Layla Davies bl9

**Llwyddiant Saith bob ochr**
Llongyfarchiadau i dîm saith bob ochr blwyddyn 7 ar berfformiad arbennig yn nhwrnament y Sir yn ddiweddar. Llwyddodd y bechgyn i ddod yn ail gan golli yn y rownd derfynol i dîm Ysgol y Pant. Tipyn o gamp!

**Ail gylchu beics**

Mae cynllun arloesol ar y gweill yn yr ysgol lle mae cynnig i staff a disgyblion ddod â hen feiciau i'w haligylchu. Mae canolfan arbenigol yn ysgol Uwchradd Pontyprodd er mwyn gwneud hyn. Ar ôl eu trwsio, defnyddir hwy o fewn yr adran Addysg Gorfforol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Llwyddiant yn yr Urdd**
Llongyfarchiadau i Gwynfor Dafydd o flwyddyn 12 am ddod yn fuddugol yn un o gystadlaethau llenyddol Eisteddfod yr Urdd. Enillodd Gwynfor wobr am y gerdd orau yn y gystadleuaeth i ddisgyblion blynyddoedd 12 a 13. Mae Gwynfor hefyd yn haeddu cryn ganmoliaeth am ei fod wedi ennill lle ar Ysgol Haf Prifysgol Rhydychen ym mis Gorffennaf. Mae miloedd o ddisgyblion yn ymgeisio am lefydd ar y cwrs nodedig hwn felly mae Gwynfor wedi cyflawni tipyn o gamp! Pob hwyl iti!

**Trip blwyddyn 1 a 2**
Aeth disgyblion o flwyddyn 1 a 2 i Fae Caerdydd ar Fai 11eg yn sgîl eu thema 'Bwrlwm yn y Bae'. Cawsant amser hyfryd yn crwydro o gwmpas y bae a buont yn ffodus iawn gyda'r tywydd. Bu un neu ddau o'r plant yn gymorth mawr i bawb wrth arwain y ffordd gan ddilyn map! Aethant i Ganolfan y Mileniwm, i mewn i'r Senedd, i weld yr Oleulong ac hyd yn oed ar gwch ar hyd yr afon heibio Stadiwm y Mileniwm. Roedd y plant yn hynod o awyddus i brynu hufen iâ o siop Cadwalader's cyn mynd nôl ar y bws i'r ysgol! Braf oedd gweld cymaint yn mwynhau ac yn defnyddio'r hyn y buont yn eu dysgu yn ystod y thema. Da iawn chi!

**Cyflwyniad i Mrs Webb**
Mae'r plant wedi bod wrth eu boddau yn dysgu am fae Caerdydd y tymor hwn. Maent wedi dysgu am hanes y bae a gwneud llawer o waith mapio. Fel rhan o'r thema bu rhaid i'r plant agor bwyty dychmygol yn bae. Maent wedi bod yn brysur yn meddwl am enw, yn creu logo a bwydlen, adeiladu model 3D ac ysgrifennu sgript er mwyn cyflwyno eu syniadau i Mrs Webb! Da iawn i bawb am drio eu gorau glas!

**Trip meithrin a derbyn**
Cafodd y disgyblion o ddosbarthiadau Cadi Cwningen a Dewi Draenog ddiwrnod arbennig yn fferm Cefn Mably ar ddechrau mis Mai. Roedd y plant a'r athrawon wrth eu boddau yn cerdded o gwmpas y fferm a chael cyfle i ddal rhai o'r anifeiliaid. Roedd pawb wedi ymddwyn yn arbennig yn yr ardal chwarae hefyd. Braf oedd clywed cymaint o blant yn chwerthin ac yn cael hwyl! Roedd rhai o blant Dewi Draenog wedi cael cyfle i fynd ar gefn asyn hefyd! Cafodd bob un ddiwrnod hyfryd!

**Cystadleuaeth Celf a Chrefft**
Llongyfarchiadau mawr iawn i bob un a gystadlodd yng nghystadleuaeth Celf a Chrefft yr Urdd. Bu tri o'n disgyblion ni'n yn llwyddiannus iawn!
Gwaith lluniadu 2D:
1af: Luke Jackson o ddosbarth Lleucu Llwynog
2ail: Gwenlli Jones o ddosbarth Gwion Gwiwer
Creu ffilm neu animeiddiad
1af: Jac Hiscox
Braf gweld llwyddiant yn yr adran uwchradd hefyd i dair o ddisgyblion blwyddyn 7!

**Taith disgyblion blwyddyn 9 i NASA**
Ym mis Chwefror aethon ni i Florida yn America. Gadawon ni y maes awyr am 12 o'r gloch ac fe gymerodd tua wyth awr i gyrraedd Washington. Ar ôl cyrraedd Washington roedd angen i ni fynd ar awyren arall i Florida ac felly ar ôl cyrraedd y gwesty aethom i gysgu am ein bod ni mor gysglyd.

Fe godon ni am saith o'r gloch ar y bore cyntaf. Ar ôl brecwast aethom i'r Kennedy Space Center. Roedd llawer o bethau i wneud yno – gwelsom ffilm IMAX, "rocket gardens" a gwisgoedd y gofodwyr. Aethom i Seaworld ar yr ail ddiwrnod. Gwelsom y sioe dolffiniaid orau erioed! Roedd cyfle i fynd ar reidiau ac wrth gwrs siopa! Roedd cyffwrdd a bwydo y stingrays yn brofiad arbennig. Y trydydd diwrnod oedd y gorau gan inni gael y profiad o blymio o'r awyr a hynny y tu fewn. Wedi hynny aethom i'r "Astronauts Hall of Fame" a gweld lluniau o'r gofodwyr y byddem yn eu cyfarfod nes mlaen, sef Frederick Gregory a Mike McUlly. Clywsom eu hanes yn y gofod. Ar y diwrnod olaf aethom nôl i'r Kennedy Space Center a gweld Atlantis, sef roced oedd wedi bod yn y gofod. Roedd yn brofiad arbennig ac yn uchafbwynt ar ddiwedd taith fythgofiadwy.
Ffion, Catrin a Will bl9

**Dringo Penyfan**
Mae'n rhaid canmol holl ddisgyblion blwyddyn 9 a lwyddodd i ddringo Penyfan yn ddiweddar yn ystod diwrnod Abch Iechyd a Ffitrwydd. Da iawn chi!

# Diweddglo hapus i dymor Pontypridd

Daeth tymor arall cyffrous a llwyddiannus i ben i Glwb Rygbi Pontypridd, gyda'r garfan yn profi siom cyn profi gorfoledd yn ystod pythefnos olaf ymgyrch 2014 - 2015.

Pontypridd, am y pedwerydd tymor yn olynol, yw Pencampwyr Uwch-Gynghrair y Principality. Collwyd cyfle, fodd bynnag, i greu hanes drwy gyflawni y dwbwl o ennill y gynghrair a'r cwpan cenedlaethol am y trydydd tro o'r bron.

Aeth Pontypridd i mewn i fis olaf y tymor wedi cyrraedd ffeinal Cwpan SWALEC, ac ar ôl gorffen un-pwynt-ar-hugain yn glir ar frig tabl yr Uwch-Gynghrair, ffeinal ail-chwarae y Gynghrair hefyd. Pen-y-bont oedd y gwrthwynebwyr yn rownd derfynol y cwpan cenedlaethol yn Stadiwm y Mileniwm ddydd Sul y 3ydd o Fai. Y gwŷr o Gae'r Bragdy oedd yr unig rai i guro Ponty yn y gynghrair drwy gydol y tymor aeth heibio, ac er fod Pen-y-bont wedi gorffen yn agos at waelod y tabl, yn amlwg byddai'n rhaid i Ponty fod yn wyliadwrus wrth geisio amddiffyn Cwpan SWALEC yn eu herbyn.

Yn anffodus ar y diwrnod mawr perfformiad digon di-fflach gafwyd gan Ponty, gyda blaenwyr Pen-y-bont yn taclo ac yn herio am y bêl ar bob cyfle. Pen-y-bont felly aeth a hi, yn fuddugol o 19pt i 15 ac yn cipio Cwpan SWALEC o ddwylo Pontypridd.

Roedd gan Ponty wedyn bythefnos i roi trefn ar bethau a pharatoi ar gyfer un her fawr arall - Ffeinal yr Uwch-Gynghrair. Glyn Ebwy oedd y tim fyddai'n eu gwynebu ar Heol Sardis ddydd Sul y 17eg o Fai. Roedd 'Gwŷr y Dur' o Went wedi gorffen tymor llwyddiannus yn yr ail safle yn y tabl.

Daeth torf swnllyd yn agos at 5,000 ynghyd i wylio'r gêm fawr, gyda charfan amlwg o gefnogwyr Glyn Ebwy yn ychwanegu at rengoedd niferus y cefnogwyr cartref. Roedd hi'n dipyn o ornest, yn gorfforol ac yn gyflym, gyda'r ddau dim yn dangos grym a dawn wrth ymosod a gwrth ymosod. Pontypridd oedd yn fuddugol, o 27pt i 14, gan sgorio pedwar cais yn erbyn un Glyn Ebwy.

Llywydd Undeb Rygbi Cymru Mr Dennis Gethin oedd wrth law i gyflwyno tlws Uwch-Gynghrair y Principality i gapten Pontypridd, y canolwr Dafydd Lockyer. Roedd dathlu mawr ar y maes, ar y terasau, ac wedyn yn y clwb hyd berfeddion nos.

Teimladau cymysg oedd rhai Pontypridd felly wrth i'r tymor ddod i ben. Roedd hi'n ergyd heb os i golli gafael ar Gwpan SWALEC, ond gwnaed iawn am hynny i raddau helaeth wrth gipio coron yr Uwch-Gynghrair, gan gadw statws Pontypridd fel y clwb rygbi blaenllaw yng Nghymru.

**Pontypridd - pencampwyr Uwch-Gynghrair Cymru 2015.**

## Ysgol Pont Sion Norton (Tudalen 12)

Ail-gylchu

Asiant Teithio

Ifan Cotter, Cogurdd

Dioglewch Tân

Ffair Lyfrau

## Ysgol Gynradd Llantrisant (Tudalen 7)

Y tîm rygbi aeth i Aberystwyth

Y tîm pêl-droed

Sioe “No Man’s Land”

Ymweliad y Gwasanaeth Tân